# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion(EOC(3)-03-07)

**Dyddiad: Dydd Iau 11 Hydref 2007**
**Amser: 9.30 - 11.26**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Christine Chapman, Cwm Cynon
Mike German, Dwyrain De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Helen Mary Jones, Llanelli
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Mick Bates wedi ymddiheuro a bod Mike German yn dirprwyo ar ei ran.

Eitem 2: Ymchwiliadau i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru

### Papur: EOC(3)-03-07(p.1)
### Papur: EOC(3)-03-07(p.2)

2.1 Nododd y Cadeirydd fod Gwilym Morris, Cyfarwyddwr Pollen Shop wedi ymddiheuro ac nad oedd yn gallu bod yn bresennol i roi tystiolaeth.

2.2 Ymatebodd Scope Cymru a'r Comisiwn Etholiadol i gwestiynau gan yr Aelodau.

Camau i'w cymryd:

Byddai Scope Cymru yn paratoi dadansoddiad o ganlyniadau pob awdurdod lleol unigol ar gyfer y Cynulliad.

Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd pob awdurdod lleol i roi gwybod iddynt am yr ymchwiliad.

Byddai'r Clerc a'r Comisiwn Etholiadol yn trafod sut y byddai'r Pwyllgor yn cyfrannu at yr ymgynghoriad ar ddangosyddion perfformiad cofrestru etholiadol.

### Eitem 3: Cytuno ar gylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol

**Papur: EOC(3)-03-07(p.3)**

3.1 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl drafft a'r gwelliant a gynigiwyd. Cafwyd pleidlais drwy godi dwylo.

3.2 Cafodd y gwelliant ei drechu o 6 phleidlais i 3.

3.3 Cytunwyd ar y llythyr a'r rhestr ymgynghori ar yr amod bod awgrymiadau'r Aelodau yn cael eu hychwanegu at y rhestr ymgynghori.

**Camau i'w cymryd:**

Byddai'r Cynghorydd Cyfreithiol yn paratoi nodyn yn egluro'r gwahaniaeth yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgorau Craffu.

Byddai'r Clerc yn diweddaru'r rhestr ymgynghori.

## Eitem 4: Cymryd rhan yng Nghyfarfodydd y Pwyllgorau

**Papur: EOC(3)03-07(p.3)**

4.1 Trafododd yr Aelodau bapur gan y Cynghorydd Cyfreithiol.

**Camau i'w cymryd**:

Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y sefydliadau dan sylw i ddweud wrthynt am y newidiadau yn y trefniadau a byddai'r Clerc yn trefnu cyfarfodydd anffurfiol rhyngddyn nhw a'r Pwyllgor.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Camau i'w cymryd:

Cytunwyd y byddai eitem 4 yn cael ei newid i gynnwys trais yn erbyn merched, prynu a gwerthu rhyw a llurgunio organau rhywiol.